Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith






# Dweud eich dweud am gyfraith lladdiadau

Ystyr lladdiad ydy pan fydd rhywun yn lladd rhywun arall.



Fersiwn Hawdd ei Ddeall

# Beth sydd yn y papur hwn


| | | |
|---|---|---|
| | Gwybodaeth amdanom ni | 1 |
|  | Beth sy'n cael ei drafod yn y papur hwn | 2 |
|  | Beth rydyn ni eisiau i chi ei wneud | 4 |
|  | Geiriau sydd yn y papur | 7 |
|  | Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y gyfraith lladdiadau | 9 |
|  | Ein syniadau ni am strwythur newydd i gyfraith lladdiadau | 12 |



Amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth 16



Dynladdiad 21



Mathau eraill o droseddau lladdiad 23



Pan fydd mwy nag 1 person yn helpu i ladd rhywun 26



Pan fydd rhywun yn marw oherwydd cam-drin domestig 28



Beth fydd yn digwydd nesaf 33


# Gwybodaeth amdanom ni

Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr ydyn ni.




Rydyn ni'n edrych ar y gyfraith ac yn gwneud **argymhellion** i'r Llywodraeth.

Mae'r **argymhellion** yn awgrymu newidiadau i wella'r gyfraith.




Mater i'r Llywodraeth ydy dilyn yr argymhellion neu beidio.


# Beth sy'n cael ei drafod yn y papur hwn




Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni edrych ar y gyfraith **lladdiadau**.

Ystyr **lladdiad** ydy pan fydd rhywun yn lladd rhywun arall.

Mae lladdiad yn cynnwys dwy brif drosedd: **llofruddiaeth** a **dynladdiad**.




Mae'r papur hwn yn cynnwys ein syniadau ni am newid cyfraith lladdiadau.



Dydyn ni ddim yn edrych ar:


- **ewthanasia**
- **hunanladdiad** â chymorth neu farw â chymorth



- **erthyliad**
- dedfrydu am ddynladdiad.



Yn nes ymlaen byddwn ni'n ysgrifennu papur am amddiffyniadau a dedfrydu mewn achosion lladdiad.




Bydd cyfle i chi ateb ein cwestiynau ni am y pynciau hynny ar ôl i'r papur gael ei gyhoeddi.

# Beth rydyn ni eisiau i chi ei wneud



Rydyn ni eisiau i chi ein helpu ni drwy ddweud eich barn chi.



Darllenwch y papur ac ateb y cwestiynau yn y blychau gwyrdd.




Mae 3 ffordd o anfon yr atebion atom ni:

Ar-lein: **consult.justice.gov.uk/law-commission/consultation-on-homicide-offences-easy-read**



Neu drwy e-bost at:
**homicide@lawcommission.gov.uk**




Neu drwy'r post at:
**Homicide project team,**
**Law Commission,**
**1st Floor, 52 Queen Anne's Gate,**
**London, SW1H 9AG.**





Anfonwch yr atebion atom ni erbyn **30 Medi 2026**.




Gallwch chi ddarllen ein papur ymgynghori llawn a chrynodeb byrrach yn:
**lawcom.gov.uk/project/law-of-homicide/**



Dydy'r papur ymgynghori llawn ddim yn fersiwn Hawdd ei Ddeall.



## Gofyn am help

Rydyn ni'n gwybod bod darllen am drais a lladd yn gallu achosi gofid.



Os bydd unrhyw beth yn y papur yn achosi gofid i chi, gallwch chi ofyn am help gan:




- Mind
  **www.mind.org.uk**

- Cymorth i Ddioddefwyr – Gwasanaeth Lladdiad
  **www.victimsupport.org.uk/help-and-support/get-help/support-near-you/homicide-service/**

## Geiriau sydd yn y papur

Rydyn ni'n defnyddio llawer o eiriau anodd yn y papur. Mae'r geiriau anodd mewn print **trwm**.

**Amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth:** mae'r llys yn cael y diffynnydd yn euog o ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth oherwydd:

- bod y diffynnydd wedi colli rheolaeth
- bod y diffynnydd yn sâl yn feddyliol a ddim yn meddwl yn glir
- neu bod yna gytundeb hunanladdiad.

**Beiadwy:** faint o gyfrifoldeb mae rhywun yn ei haeddu am gyflawni trosedd.

**Cam-drin domestig:** pan fydd rhywun yn trin aelod o'r teulu neu bartner yn wael er mwyn ei reoli neu i wneud i'r person deimlo'n ofnus. Mae'n cynnwys cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol ac ymddygiad rheolaethol.

**Cyfranogaeth:** pan fydd rhywun yn helpu neu'n annog rhywun arall i gyflawni trosedd.

**Dedfryd:** cosb y llys i ddiffynnydd sydd wedi cael ei ddyfarnu'n euog.

**Dedfryd oes:** mae'n bosib y bydd yn rhaid i berson aros yn y carchar am weddill ei oes, os nad ydy'r person yn gallu dangos y byddai'n ddiogel ei ryddhau.

**Diffynnydd:** y person yn y llys sydd wedi cael ei gyhuddo o drosedd.

**Dioddefwr:** mewn achos lladdiad, y dioddefwr ydy'r person mae'r diffynnydd wedi'i ladd.

**Dynladdiad:** lladd rhywun drwy weithred droseddol beryglus, neu drwy fod yn fyrbwyll neu'n esgeulus.

**Erthyliad:** pan fydd rhywun yn penderfynu dod â beichiogrwydd i ben.


**Ewthanasia:** lladd rhywun i roi diwedd ar ei boen, pan fydd yr unigolyn yn sâl iawn ac yn marw, fel arfer.

**Hunanladdiad:** pan fydd rhywun yn lladd ei hun.

**Lladdiad:** pan fydd rhywun yn lladd rhywun arall.

**Llofruddiaeth:** lladd rhywun yn fwriadol neu wrth geisio achosi anaf difrifol iawn.

# Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y gyfraith lladdiadau




Mae dwy brif drosedd lladdiad: **llofruddiaeth** a **dynladdiad.**

Dyma'r 'strwythur 2 lefel', oherwydd bod yna 2 lefel.

## Lefel 1: Llofruddiaeth



Llofruddiaeth ydy'r drosedd lladdiad fwyaf difrifol.

Ystyr **llofruddiaeth** ydy lladd rhywun yn fwriadol neu wrth geisio achosi anaf difrifol iawn.

## Lefel 2: Dynladdiad



Ystyr **dynladdiad** ydy lladd rhywun heb fwriadu ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol. Mae hyn yn digwydd pan oedd y diffynnydd:

- Yn cyflawni trosedd beryglus arall wnaeth achosi'r farwolaeth.




Neu

- Yn esgeulus iawn, sy'n golygu bod gan y diffynnydd ddyletswydd i fod yn ofalus ond ei fod wedi bod yn ddiofal iawn.



Mae'n cael ei alw'n ddynladdiad hefyd pan fydd yna **amddiffyniad rhannol** i lofruddiaeth.

Mae tudalen 16 yn esbonio beth ydy **amddiffyniadau rhannol.**



Yn gyffredinol, mae **dynladdiad** yn llai **beiadwy** na llofruddiaeth.

Ystyr **beiadwy** ydy faint o gyfrifoldeb mae rhywun yn ei haeddu am gyflawni trosedd.




Mae llawer o bobl yn meddwl nad ydy'r gyfraith yn ddigon teg nac yn ddigon clir ar hyn o bryd.




## Dedfrydu

Pan fydd llys yn cael diffynnydd yn euog o drosedd, rhaid i'r barnwr benderfynu beth fydd **dedfryd** y diffynnydd.


**Dedfryd** ydy'r gosb am y drosedd.



## Dedfryd am lofruddiaeth

Pan fydd person wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth, rhaid i'r barnwr roi **dedfryd oes**.


Mae **dedfryd oes** yn golygu ei bod yn bosib y bydd yn rhaid i'r person aros yn y carchar am weddill ei oes, os nad ydy'r person yn gallu dangos y byddai'n ddiogel ei ryddhau.




## Dedfryd am ddynladdiad

Pan fydd person wedi'i gael yn euog o ddynladdiad, mae'r barnwr yn gallu dewis rhoi dedfryd oes neu ddedfryd lai na hynny.

# Ein syniadau ni am strwythur newydd i gyfraith lladdiadau




Rydyn ni'n meddwl y byddai strwythur 3 lefel yn well.

Byddai hyn yn golygu mai'r achosion lladdiad lle mae llawer o fai ar y diffynnydd fyddai'n cael eu trin fel y rhai mwyaf difrifol.



Dyma beth ddylai ddigwydd yn ein barn ni:

- Lefel 1 ar gyfer llofruddiaeth gradd gyntaf pan oedd y diffynnydd yn bwriadu lladd rhywun.



- Lefel 2 ar gyfer:
  - Llofruddiaeth ail radd, sef pan fydd y diffynnydd wedi lladd rhywun ond mai achosi anaf difrifol oedd ei fwriad.



– Llofruddiaeth pan fydd gan y diffynnydd amddiffyniad rhannol.




- Lefel 3 ar gyfer dynladdiad pan fydd y diffynnydd wedi lladd rhywun ond nad oedd yn bwriadu lladd y person nac achosi anaf difrifol.



## Dedfrydu ar gyfer pob lefel

Byddai'n rhaid i'r barnwr roi dedfryd oes i'r diffynnydd am lofruddiaeth gradd gyntaf.





Byddai'r barnwr yn gallu rhoi dedfryd oes neu ddedfryd fyrrach i'r diffynnydd am lofruddiaeth ail radd a dynladdiad.





## Pam y byddai'r newidiadau'n gweithio yn ein barn ni

Byddai'r gyfraith yn fwy clir.




Byddai'n helpu i roi label mwy teg ar droseddau.

Byddai'n helpu barnwyr i roi dedfrydau mwy teg.






**Cwestiwn 1:**
Ydych chi'n meddwl bod angen 3 lefel o droseddau lladdiad yn hytrach na 2?

**Cwestiwn 2:**
Ddylai llofruddiaeth gradd gyntaf olygu lladd rhywun yn fwriadol?



**Cwestiwn 3:**
Ddylai llofruddiaeth ail radd olygu lladd rhywun pan mai achosi anaf difrifol oedd bwriad y diffynnydd?

# Amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth



Ystyr **amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth** ydy pan fydd y llys yn cael y diffynnydd yn euog o ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth oherwydd:



1. Bod y diffynnydd wedi colli rheolaeth

   Ystyr hyn ydy pan fydd diffynnydd yn colli rheolaeth ac yn lladd rhywun oherwydd:



- bod y diffynnydd yn ofni trais difrifol gan y person gafodd ei ladd neu



- yn teimlo bod y person gafodd ei ladd wedi gwneud cam mawr â'r diffynnydd.



2. Bod gan y diffynnydd gyfrifoldeb lleiedig

   Ystyr hyn ydy pan nad oedd y diffynnydd yn meddwl yn glir oherwydd ei fod yn sâl yn feddyliol a bod ei gyflwr meddyliol wedi achosi iddo wneud y weithred a laddodd rywun arall.



3. Bod yna gytundeb hunanladdiad

   Ystyr hyn ydy pan fydd dau berson wedi cytuno i farw gyda'i gilydd, ond mai dim ond un sy'n marw a bod y person sy'n dal yn fyw wedi bod yn rhan o farwolaeth y person arall.

## Pam defnyddio amddiffyniad rhannol



Y prif reswm am ddefnyddio amddiffyniad rhannol ydy osgoi dedfryd oes, fyddai'n gallu bod yn rhy llym i'r diffynnydd mewn achosion fel hyn.



Dim ond gyda llofruddiaeth mae'n bosib cael amddiffyniad rhannol.

Y rheswm am hyn ydy bod yna ddedfryd oes am lofruddiaeth.




Mae gan farnwyr fwy o ddewis wrth ddedfrydu am droseddau eraill.

## Pam nad ydy hi'n deg defnyddio amddiffyniad rhannol




Mae rhai pobl yn meddwl nad ydy'r gyfraith ar hyn o bryd yn glir neu'n deg oherwydd bod diffynyddion sydd ag amddiffyniad rhannol yn dal wedi bod eisiau lladd rhywun neu ei anafu'n ddifrifol.



Mae rhai pobl yn poeni ei bod hi'n anghywir galw'r drosedd hon yn ddynladdiad.



## Beth rydyn ni'n ei awgrymu

Rydyn ni'n meddwl y dylai amddiffyniad rhannol fod yn berthnasol i lofruddiaeth gradd gyntaf pan oedd y diffynnydd yn bwriadu lladd y dioddefwr.




Byddai hwn yn gategori ar wahân ar lefel 2 cyfraith lladdiadau ac yn cael ei ystyried yn fwy difrifol na dynladdiad.




Dedfryd oes fyddai'r gosb fwyaf, ond byddai'r barnwr yn gallu penderfynu rhoi dedfryd oes neu ddedfryd fyrrach.

## Pryd fyddai amddiffyniad rhannol ddim yn berthnasol



Fyddai amddiffyniad rhannol ddim yn berthnasol i lofruddiaeth ail radd. Ystyr llofruddiaeth ail radd ydy pan oedd y diffynnydd yn bwriadu achosi anaf difrifol i rywun ond ei fod wedi ei ladd.



Yn yr achos hwn, byddai'r barnwr yn gallu ystyried wrth ddedfrydu oedd y diffynnydd wedi colli rheolaeth neu oedd ganddo gyfrifoldeb lleiedig.



**Cwestiwn 4:**
Os oes gan ddiffynnydd amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth gradd gyntaf, ydych chi'n meddwl y dylai gael ei ganfod yn euog o fath llai difrifol o lofruddiaeth?

# Dynladdiad



Mae llawer o bobl yn dweud bod y gyfraith dynladdiad yn aneglur ac yn rhy eang ar hyn o bryd oherwydd ei bod hi'n cynnwys mathau gwahanol iawn o ladd o dan un drosedd.

## Beth rydyn ni'n ei feddwl


Rydyn ni'n awgrymu 3 math clir o ddynladdiad:



1. **Dynladdiad byrbwyll**
   Ystyr hyn ydy pan fydd person yn cymryd risg beryglus yn fwriadol, heb reswm da, ac yn achosi i berson arall farw.



2. **Dynladdiad drwy esgeuluster difrifol**
   Ystyr hyn ydy pan fydd rhywun yn gyfrifol am gadw person arall yn ddiogel ond ddim yn gwneud hynny, a bod y person arall yn marw.



3. **Dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon**
   Ystyr hyn ydy pan nad ydy rhywun yn bwriadu lladd neu anafu unrhyw un yn ddifrifol, ond ei fod yn gwneud rhywbeth peryglus sy'n achosi i rywun farw. Rhaid i'r weithred fod yn drosedd ac yn beryglus.





**Cwestiwn 5:**
Ddylai dynladdiad gael ei rannu'n 3 math fel hyn?

## Y gair Saesneg 'manslaughter'




Mae rhai pobl yn meddwl bod y gair Saesneg 'manslaughter' yn hen ffasiwn, ond does dim gair gwell ar hyn o bryd.



**Cwestiwn 6:**
Ddylen ni ddal ati i ddefnyddio'r gair Saesneg 'manslaughter' neu ddylen ni ddod o hyd i air gwahanol?

# Mathau eraill o droseddau lladdiad



Llofruddiaeth a dynladdiad ydy'r prif droseddau lladdiad.

Mae yna fathau eraill o droseddau yng Nghymru a Lloegr lle mae rhywun yn achosi marwolaeth rhywun arall, fel:



- gyrru'n beryglus



- peidio ag amddiffyn plentyn neu oedolyn agored i niwed



- annog hunanladdiad



- peidio â rheoli ci peryglus.

Rydyn ni'n galw'r rhain yn **droseddau lladdiad penodol**.




Rydyn ni'n meddwl y dylai'r troseddau hyn gael eu cadw ar wahân i'r prif droseddau lladdiad, sef llofruddiaeth a dynladdiad. Byddai hyn yn helpu i gadw'r gyfraith yn syml ac yn glir.



## Trosedd newydd am gyflenwi cyffuriau

Mae rhai pobl wedi awgrymu trosedd newydd i bobl sy'n cyflenwi cyffuriau i rywun arall sydd wedyn yn marw.



Y rheswm am hyn ydy oherwydd bod y gyfraith ar hyn o bryd yn ei gwneud hi'n anodd profi mai'r person wnaeth gyflenwi'r cyffuriau wnaeth achosi marwolaeth y person arall.





**Cwestiwn 7:**
Ddylai trosedd newydd gael ei chreu, sef cyflenwi cyffuriau sy'n achosi marwolaeth?



## Trosedd newydd am beidio â helpu rhywun sydd mewn perygl

Mae rhai pobl wedi awgrymu trosedd newydd i bobl nad ydyn nhw’n helpu pan fydd rhywun yn marw, nac yn galw am help gan bobl eraill.




**Cwestiwn 8:**
Ddylai trosedd newydd gael ei chreu, sef peidio â helpu neu achub rhywun sy’n marw?

# Pan fydd mwy nag 1 person yn helpu i ladd rhywun



**Cyfraith cyfranogaeth** ydy hyn.

Weithiau, mae cyfraith cyfranogaeth hefyd yn cael ei galw'n **fenter ar y cyd.**

**Cyfranogaeth** ydy pan fydd rhywun yn helpu neu'n annog rhywun arall i gyflawni trosedd.



Er enghraifft, mae un person yn saethu ac yn lladd rhywun ac mae rhywun arall yn gyrru'r car er mwyn i'r person allu gwneud hynny.



Mae'n bosib cael yr ail berson yn euog o'r un drosedd â'r person cyntaf, er na wnaeth yr ail berson ladd unrhyw un mewn gwirionedd.



Mae cyfraith cyfranogaeth yn gymhleth iawn a chafodd ei newid yn 2016 ar ôl penderfyniad gan Oruchaf Lys y Deyrnas Unedig.



Mae rhai pobl yn dweud nad ydy cyfraith cyfranogaeth yn deg weithiau, yn enwedig mewn achosion lladdiad.



Mae cyfraith cyfranogaeth yn berthnasol i droseddau eraill yn ogystal â lladdiad, felly dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw awgrymiadau am gyfraith cyfranogaeth yn y papur hwn.




Ond rydyn ni'n meddwl y byddai ein syniadau am strwythur newydd i gyfraith lladdiadau yn gallu gwneud cyfraith cyfranogaeth mewn lladdiad yn fwy teg.

# Pan fydd rhywun yn marw oherwydd cam-drin domestig




Rydyn ni wedi edrych ar gyfreithiau marwolaeth oherwydd **cam-drin domestig.**



Ystyr **cam-drin domestig** ydy pan fydd rhywun yn trin aelod o'r teulu neu bartner yn wael, a hynny er mwyn rheoli'r person neu i wneud i'r person deimlo'n ofnus.

Mae'n cynnwys cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol ac ymddygiad rheolaethol.



Mae rhai dioddefwyr cam-drin domestig yn marw drwy **hunanladdiad** oherwydd y cam-drin maen nhw'n ei ddioddef.

Ystyr **hunanladdiad** ydy pan fydd rhywun yn lladd ei hun.



Mae person sy'n cam-drin rhywun sy'n marw drwy hunanladdiad yn gallu cael ei gyhuddo o'r troseddau canlynol:





- dynladdiad
- llofruddiaeth
- annog neu helpu gyda hunanladdiad.



Mae rhai pobl yn poeni nad ydy pobl sy'n cam-drin yn cael eu dal yn gyfrifol bob amser pan fydd dioddefwyr yn marw drwy hunanladdiad.



Maen nhw'n dweud nad ydy'r heddlu'n ymchwilio'n iawn i'r achosion hyn.




Mae'n anodd profi mai'r cam-drin wnaeth arwain at yr hunanladdiad. Felly, mae'n bosib na fydd rhai pobl sy'n euog yn cael eu dyfarnu'n euog mewn llys.


## Trosedd newydd am gam-drin domestig sy'n arwain at hunanladdiad



Mae rhai pobl yn meddwl bod angen trosedd newydd, sef cam-drin domestig sy'n arwain at hunanladdiad.




Byddai'r drosedd hon yn gallu helpu'r rheithgor i benderfynu oes cysylltiad rhwng y cam-drin a'r hunanladdiad.




Gallai hyn arwain at fwy o bobl sy'n cam-drin yn cael eu dal yn gyfrifol pan fydd y cam-drin yn achosi marwolaeth y dioddefwr.

## Mwy o amser yn y carchar



Syniad arall ydy rhoi dedfrydau hirach am droseddau sydd eisoes yn berthnasol pan fydd person sy'n cam-drin yn cael ei ddyfarnu'n euog o gam-drin.



Os ydy'r cam-drin yn arwain at hunanladdiad, gallai'r barnwr roi dedfryd hirach i'r person sy'n cam-drin.



**Cwestiwn 9:**
Ddylai trosedd newydd gael ei chreu ar gyfer pobl sy'n cam-drin pan fydd y person sy'n cael ei gam-drin yn marw drwy hunanladdiad oherwydd y cam-drin domestig?



**Cwestiwn 10:**
Ddylai'r barnwr roi dedfryd hirach i'r person sy'n cam-drin oherwydd mai'r cam-drin domestig wnaeth achosi'r hunanladdiad?




## Barn ar bethau eraill

**Cwestiwn 11:**
Ydych chi eisiau dweud wrthym ni am unrhyw farn arall sydd gennych chi am droseddau lladdiad?

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Ar ôl i ni weld beth mae pobl wedi'i ddweud, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad i'r Llywodraeth.




Yna bydd y Llywodraeth yn penderfynu ydyn nhw am ddilyn yr argymhellion.

## Cydnabyddiaethau

Mae’r papur hwn yn cynnwys deunydd o gasgliad Hawdd ei Ddeall Inspired Services, a does dim modd ei ddefnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.
Cyf ISL148 26. Mehefin 2026.

www.inspiredservices.org.uk

Mae’n bodloni’r safon Ewropeaidd ar gyfer testunau hawdd eu deall.

Mwy o wybodaeth:
www.easy-to-read.eu